2024-2027

CYNLLUN GWELLA YSGOL Y GRAIG

`

Ysgol Y Graig

Seilir y CGY hwn ar
Fframwaith Gwella Ysgol.

Y mae i'r fframwaith honno
bedwar maes allweddol:

Maes Fframwaith. 1: Arweinyddiaeth
Cydrannau:
1.1 Gweledigaeth Strategol
1.2 Addysgeg (Dysgu, Addysgu a'r Cwricwlwm)
1.3 Dysgu proffesiynol, arloesi a chydweithio
1.4 Staff ac Adnoddau
1.5 Systemau, polisïau a gweithdrefnau

Maes Fframwaith. 2: Dysgu ac Addysgu
Cydrannau:
2.1 Addysgeg
2.2 Dysgu proffesiynol, cydweithio ac arloesi

Maes Fframwaith. 3: Cwricwlwm
Cydrannau:
3.1 Pennu gweledigaeth (arweinyddiaeth ym maes dysgu a rheoli newid)

Maes Fframwaith. 4: Lles, Tegwch a Chynhwysiant
Cydrannau:
4.1 Cwricwlwm
4.2 Hybu Iechyd Da
4.3 Diogelu
4.4 Tegwch
4.5 Cynhwysiant

Cynllun Gwella Ysgol
2024 – 2027

Ysgol Y Graig, Llangefni

Ysgol y Graig

Amcanion

Amcanion Cyffredinol

Creu amgylchfyd ac awyrgylch hapus a diogel lle y gall disgybl dyfu, datblygu ac aeddfedu i ddod yn unigolyn hyderus, yn ymwybodol o les eraill, ac yn aelod cyfrifol o'r gymdeithas.

Cynnig addysg o'r ansawdd uchaf posibl sydd yn adlewyrchu gofynion yr unigolion, y gymdeithas, yr Awdurdod Addysg a'r Llywodraeth.

Sicrhau cyflawniad gofynion Cwricwlwm i Gymru trwy roi'r cyfle i bob disgybl ddatblygu i'w lawn botensial ymhob agwedd ar y cwricwlwm.

Cynnig cyfle cyfartal i bob disgybl, waeth beth fo'i ryw, allu, crefydd neu hil.

Annog parch tuag at eiddo a phobl eraill a phwysleisio pwysigrwydd ymddygiad da, cwrteisi ac ymddangosiad i bob disgybl.

Galluogi pob disgybl i ddatblygu i fod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, fel y gallant gymryd rhan lawn ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol y gymdeithas ddwyieithog.

Helpu pob plentyn i fod yn annibynnol, yn greadigol ac yn chwilfrydig trwy ddatblygu sgiliau meddwl, y gallu i brosesu gwybodaeth, rhesymu, ymholi a gwerthuso.

Amcanion Penodol

Sicrhau bod pob disgybl yn teimlo'n rhan o gymdeithas ddisgybledig sy'n rhoi bri yn ei bywyd a'i gwaith ar werthoedd moesol, ysbrydol a dyngarol.

Meithrin datblygiad personol ac iechyd pob unigolyn a pharch a goddefgarwch tuag at bobl o bob cefndir, cred a diwylliant a sicrhau cyfleoedd cyfartal beth bynnag fo'u hil, crefydd, rhyw, rhywioldeb, oedran neu anabledd.

Sicrhau y datblygir gallu pob disgybl i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg fel cyfrwng dysgu yn unol â Pholisi Iaith yr Awdurdod Addysg.

Sicrhau bod dilyniant a datblygiad yn y profiadau a'r gweithgareddau a ddarperir a bod cyfran helaeth o'r profiadau hynny yn adlewyrchu natur bywyd a diddordebau'r disgyblion.

Sicrhau bod pob maes yn rhoi sylw i'r Cwricwlwm Cymreig.

Galluogi disgyblion i ddefnyddio eu medrau allweddol gan gynnwys llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mewn amrywiaeth o gyd-destunau cwricwlaidd.

Sicrhau y defnyddir dulliau dysgu ac addysgu o ansawdd uchel fydd yn cynorthwyo disgyblion i ddatblygu meddyliau ymchwilgar, creadigol a bywiog, y gallu i gwestiynu a thrafod yn rhesymegol, i ddatrys problemau real ac i weithio'n annibynnol.

Darparu amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol a fydd o gymorth i ddatblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion.

Darparu cwricwlwm eang sy'n datblygu potensial llawn pob disgybl.

Annog cyswllt rhwng ysgolion:

â'r cartref
â'r gymuned
ag ysgolion eraill [meithrin, cynradd ac uwchradd]
â diwydiant a masnach
â'r Awdurdod Addysg ag asiantaethau perthnasol eraill.

YSGOL Y GRAIG
CYNLLUN GWELLA YSGOL
PRIF FLAENORIAETHAU
2024-2025

yn dilyn:

- Arolygiad Interim
- Hunan Arfarniad yr Ysgol
- Strwythur Rheoli Perfformiad

Canfyddiadau Adroddiad Hunan Arfarnu'r Ysgol 2023-24:

Blaenoriaeth 1: ASESU A THRACIO CYNNYDD
Mireinio gweithdrefnau adolygu cynnydd sy'n seiliedig ar egwyddorion cynnydd, disgrifiadau dysgu a'r pedwar diben fel bod bron pob dysgwr yn gwneud cynnydd da ar draws y MDaPh a thrwy hynny lleihau'r bwlch rhwng y plant o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.

Blaenoriaeth 2: MDaPh MATHEMATEG
Datblygu hyfedredd mathemateg ar draws yr ysgol er mwyn sichrau fod llawer o'r dysgwyr yn hyderus wrth gymhwyso sgiliau a gwybodaeth mathemategol mewn amrywiol cyd-destunau.

Blaenoriaeth 3: LLES STAFF A DISGYLION
Sicrhau fod holl staff yr ysgol yn gwybod sut i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain yn ogystal ag iechyd meddwl yr holl ddisgyblion.

Blaenoriaeth 4: ADDYSGEG - ADBORTH A METAWYBYDDIAETH (Blaenoriaeth Dalgylch)
Cysoni arferion addysgegol ar draws y Continiwwm 3-16 yn arfogi'r dysgwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwneud cynnydd a llwyddo drwy gydol eu hoes.
Nod: Sicrhau a chysoni strategaethau Metawybyddiaeth ac adborth ar draws y continwwm 3-16.

Blaenoriaeth 5: DIGIDOL (Dalgylch)
- 1) Cydweithio gyda'r grwp addysgeg ar gyfer datblygu adborth digidol
- 2) Datblygu'r model SAMR wrth gynllunio gweithgaredau trawsgwricwlaidd
- 3) Codi ymwybyddiaeth y Panel Digidol

Blaenoriaeth 6: ADY (Blaenoriaeth Dalgylch)
Gweithredu gofynion y ddeddf Trawsnewid ADY sy'n arwain at welliant yn ysgolion clwstwr Cefni
- 1): Cysoni gwahaniaethu ar draws yr ysgol
- 2): Paratoi ar gyfer y dull Newydd o gyllido ADY

BLAENORIAETHAU 2023-2024		
AROLYGIAD DIWETHAF – IONAWR 2019	**CANFYDDIADAU MONITRO / ARFARNU**	**CAMAU NESAF**
Argymhellion arolwg Estyn 01/2019 Arolwg Interim Tachwedd 2023 – ffocws ar rifedd yn drawsgwricwlaidd ac ysgrifennu estynedig	Arolwg Interim yn dangos gwelliant ers Arolwg Ionawr 2019 yn y meysydd rhifedd yn drawsgwricwlaidd ac ysgrifennu estynedig. Argymhellion eraill wedi eu gweithredu.	Amserlenu dyletswyddau maes parcio. Creu asesiad risg newydd ar gyfer maes parcio Graig Fach.
Blaenoriaeth 1: ASESU A THRACIO CYNNYDD Mireinio gweithdrefnau adolygu cynnydd sy'n seiliedig ar egwyddorion cynnydd, disgrifiadau dysgu a'r pedwar diben fel bod bron pob dysgwr yn gwneud cynnydd da ar draws y MDaPh a thrwy hynny lleihau'r bwlch rhwng y plant o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion.	Offeryn tracio cynnydd draft wedi ei greu ac yn cael ei ddefnyddio. Yr ysgol wedi buddsoddi yn 'Traciwr. Fe brofodd hwn i fod yn fwy llafurus na'r disgwyl gyda Gwaith yn cael ei ddyblygu. Nid yw'n cynnig gwerth da am arian. Mae'r offeryn tracio wedi cael ei ddefnyddio gan bron pob un o'r athrawon ar gyfer cofnodi asesiadau, ond mae angen datblygu y defnydd ohono er mwyn llywio'r cynllunio ar gyfer dysgu.	Is-flaenoriaeth CGY 2024 – 2025 Mae angen mireinio yr offeryn gan fonitro'n ofalus y cynnydd mae plant yn ei wneud, yn ogystal a sicrhau ei fod yn cael ei ddefnyddio gan pob un o'r athrawon ar gyfer llywio'r cynllunio.
Blaenoriaeth 2: MDaPh MATHEMATEG Datblygu hyfedredd mathemateg ar draws yr ysgol er mwyn sichrau fod llawer o'r dysgwyr yn hyderus wrth gymhwyso sgiliau a gwybodaeth mathemategol mewn amrywiol cyd-destunau	Wrth fonitro gwelwyd fod llawer o'r plant yn datblygu'n dda yn eu sgiliau mathenategol. Fodd bynnag, gwelwyd fod tystiolaeth o sgiliau'n cael eu hailadrodd yn enwedig o fewn gwaith data. Mae angen ailedrych ar y cynllunio tymor hir, yn arbennig o safbwynt sgiliau trawsgwricwlaidd.	Bydd cynllunio tymor hir a chanol yn fllaenoriaeth yn CGY 2024 - 2025
Blaenoriaeth 3: LLES STAFF A DISGYBLION YR YSGOL Sicrhau fod holl staff yr ysgol yn gwybod sut i ofalu am eu hiechyd meddwl eu hunain yn ogystal ag iechyd meddwl yr holl ddisgyblion.	Mae bron pob aelod o'r staff wedi derbyn hyfforddiant gan Gwasnaeth Mewn Ysgolion CAMHS ac yn gwybod beth mae'r gwasanaeth yn ei gynnig. Nifer o gyfeiriadau wedi eu gwneud gyda'r staff wedi derbyn cyngor ar sut i gefnogi dysgwyr. Yr holl staff hefyd wedi derbyn manylion Education Support a sut i gysylltu efo Medra er mwyn derbyn cyngor personol.	Er na fydd yn flaenoriaeth yn CGY 2024 – 2025 bydd yr ysgo yn parhau i weithredu er mwyn sicrhau fod lles a llesiant staff a dysgwyr yn derbyn sylw parhaol.
Blaenoriaeth 4: ADDYSGEG - ADBORTH A METAWYBYDDIAETH (Blaenoriaeth Dalgylch)	Polisi adborth wedi ei greu. Angen cyflwyno'r polisi I'r Llywodraethwyr er mwyn iddo gael ei fabwysiadu. Wrth trafod addysgeg roedd teimlad cryf bod angen	Blaenoriaeth CGY 2024 – 2025

Cysoni arferion addysgegol ar draws y Continiwwm 3-16 yn arfogi'r dysgwyr gyda'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer gwneud cynnydd a llwyddo drwy gydol eu hoes. Nod: Sicrhau a chysoni strategaethau Metawybyddiaeth ac adborth ar draws y continwwm 3-16.	rhoi mwy o sylw i wahaniaethu, ac yn benodol gwahniaethu ar gyfer plant ADY. Roedd Penaethiaid yn cytuno fod gormod o flaenoriaethau dalgylch a bod hyn yn mynd ar draws blaenoriaethau unigol ysgolion.	Gwahaniaethu yn flaenoriaeth gyda'r grwpiau dalgylch yn cydweithio er mwyn sicrhau cysondeb a rhannu arferion da.
Blaenoriaeth 5: DIGIDOL (Dalgylch) • 1) Cydweithio gyda'r grwp addysgeg ar gyfer datblygu adborth digidol • 2) Datblygu'r model SAMR wrth gynllunio gweithgaredau trawsgwricwlaidd 3) Codi ymwybyddiaeth y Panel Digidol	Offeryn 360digi wedi cael ei ddefnyddio i arfarnu prosesau cymhwysedd digidol. Staff wedi derbyn hyfforddiant SAMR ac wedi datblygu yn eu dealltwriaeth o'r hyn mae'n ei olygu wrth gynllunio. Fodd bynnag mae angen parhau i gadw'r ffocws ar y model SAMR er mwyn sicrhau fod y dealltwriaeth wedi ei wreiddio ac yn arwain at dysgwyr yn cael mynediad i brofiadau digidol cyfoethog yn drawsgwricwlaidd. Cytunwyd bod angen i'r 3 grwp blaenoriaeth dalgylch gydweithio ar yr un blaenoriaeth sef gwahaniaethu gyda'r grwp digidol yn rhoi sylw i hwyluso rhannu adnoddau	Blaenoriaeth CGY 2024 – 2025 Parhau i gadw'r ffocws ar y model SAMR er mwyn sichrau ei fod wedi ei wreiddio ar draws yr ysgol Parhau i gydweithio gyda'r panel digidol er mwyn sicrhau ansawdd offer digidol. Gwahaniaethu – creu llwyfan ar gyfer rhannu adnoddau
Blaenoriaeth 6: ADY (Dalgylch) Gweithredu gofynion y ddeddf Trawsnewid ADY sy'n arwain at welliant yn ysgolion clwstwr Cefni 1): Cysoni gwahaniaethu ar draws yr ysgol 2): Paratoi ar gyfer y dull Newydd o gyllido ADY	Gweithdai wedi eu cynnal er mwyn sicrhau fod staff dysgu yn ysgrifennu cofnodion CDU a phroffil un tudalen manwl ac effeithiol. Angen parhau i fonitro hyn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol. Adroddiadau monitor yn dangos fod angen ailedrych ar y ddarpariaeth sydd ar gyfer plant ADY sydd efo CDU ar lawr y Dosbarth. Sut mae gwahaniaethu y edrych ar gyfer y plant hyn?	Blaenoriaeth CGY 2024 – 2025 Cydweithio gyda grwp addysgeg ar greu blaenoriaeth sy'n rhoi sylw l sut mae athrawon yn gwahaniaethu ac yn ateb gofynion plant ADY sydd yn eu dosbarthiadau
BLAENORIAETHAU'R CYNGOR YSGOL 2024 – 25		
Siarter Iaith	Parhau i wreiddio'r Siarter Iaith ym mywyd a gwaith yr ysgol. Yr ysgol wedi derbyn achrediad Arian.	
Iechyd a Ffitrwydd	Llysgenhadon i baratoi rhaglen gweithgareddau corfforol ar gyfer holl blant yr ysgol.	

Pontio Bl 6 a 7	Cynrychiolaeth o Gyngor Ysgol y Griag yn cydweithio gydag aelodau o Cyngor Ysgolion y Dalgylch wrth greu gweithgareddau / tasgau pontio ar gyfer Bl 6 /7	

Prif Flaenoriaethau CGY 2024-25 yw:

Blaenorieth 1: ADDYSGEG – Sefydlu egwyddorion y CS ym ml 3 – 6.
Sicrhau fod pob athro Bl3 – 6 yn darparu gweithgareddau pwrpasol cyfoethog mewn ardaloedd her o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth er mwyn datblygu sgiliau annibynnol y disgyblion.

Blaenoriaeth 2: CYNLLUNIO
Mireinio cynlluniau tymor hir a thymor canol er mwyn sicrhau datblygiad yn nysgu yr holl ddisgyblion wrth ateb gofynion Cwriwlcwm i Gymru.

Blaenoriaeth 3: MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Sicrhau fod bron pob disgybl yn chwilfrydig fel eu bod yn gallu ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.

Blaenoriaeth 4: **ADDYSGEG - GWAHANIAETHU (Blaenoriaeth Dalgylch)**
Ymateb i anghenion ein holl ddisgyblion ym maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
Sicrhau cysondeb a chontiniwm addysgu ar lawr dosbarth gan sicrhau fod mynediad i bob disgybl i sicrhau datblygiad a chynnydd.

Blaenoriaethau CGY – Cynllun Tair Blynedd

Fe fydd yr agweddau isod yn flaenoriaethau parhaus yn y CGY a bydd gweithredu 2026-2027 yn seiliedig ar ganfyddiadau monitro cynnydd yr ysgol, dros y ddwy flynedd nesaf.

Datganiad Datblygu 2023 - 2026		
2024-2025	**2025-2026**	**2026-2027**
Blaenorieth 1 Sefydlu egwyddorion y CS ym ml 3 – 6: **FfGY: Meysydd a Chydrannau** 1: Arweinyddiaeth 1.1; 1.2 2: Dysgu ac Addysgu 2.1 3. Cwricwlwm 3.1	**Y Gymraeg –** gwella sgiliau llafar llawer o ddisgyblion	**Y Gymraeg –** gwella sgiliau llafar llawer o ddisgyblion
Blaenoriaeth 2: Cynllunio **FfGY: Meysydd a Chydrannau** 2: Dysgu ac Addysgu 2.2 3. Cwricwlwm 3.1	**Ysgrifennu Estynedig:** Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig gan sicrhau ystod o ffurfiau yn drawsgwricwlaidd o fewn camau cynnnydd 2 a 3	**Ysgrifennu Estynedig:** Datblygu sgiliau ysgrifennu estynedig gan sicrhau ystod o ffurfiau yn drawsgwricwlaidd o fewn camau cynnnydd 2 a 3
Blaenoriaeth 3: MDaPh Gwyddoniaeth a Thechenoleg **FfGY: Meysydd a Chydrannau** 2: Dysgu ac Addysgu 2.2 3. Cwricwlwm 3.1	**ADY:** sicrhau fod pob athro ac athrawes yn hyderus wrth gwblhau, diweddaru ac addasu CDU ddisgyblion ADY.	**ADY:** sicrhau fod pob athro ac athrawes yn hyderus wrth gwblhau, diweddaru ac addasu CDU ddisgyblion ADY.
Blaenoriaeth 4: Addysgeg (Gwahaniaethu) Dalgylch **FfGY: Meysydd a Chydrannau** 2: Dysgu ac Addysgu 2.1; 2.2 4. Lles,Tegwch a Chynhwysiant 4.5	**Presenoldeb**: Sicrhau fod bron pob ddisgyb yn mynychu'r ysgol yn rheoliadd.	**Hyfydredd Mathemateg:** Sicrhau fod bron pob ddisgyb yn gwneud cynnydd da iawn wrth gymhwyso sgiliau rhifedd yn drawsgwricwlaidd
		Digidol: Sichrau fod pob athro ac athrawes yn defnyddio y model SAMR wrth gynllunio tasgau digidol cyfoethog

Blaenorieth 1: ADDYSGEG – Sefydlu egwyddorion y CS ym ml 3 – 6.
Sicrhau fod pob athro Bl3 – 6 yn cynllunio profiadau dysgu o fewn yr ardaloedd sy'n galluogi disgyblion i gymhwyso eu sgiliau, datrys problemau a meithrin eu hannibyniaeth

RHESWM DROS Y FLAENORIAETH →	MEWNBWN CEFNOGAETH →	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD →	ALLBWN TYMOR BYR →	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Y weledigaeth yw sicrhau cysondeb ar draws yr ysgol mewn dulliau addysgeg gan ddatblygu'r dysgwyr i fod yn annibynnol yn ei dysgu. Bydd hyn hefyd yn hwyluso'r pontio o flwyddyn 2 i flwyddyn 3 ac yn caniatau i'r dysgwyr adeiladu ar y sgiliau annibynnol maent wedi eu magu yng ngham cynnydd 1. Credir y bydd addysgu gan ddefnyddio tasgau ffocws a thasgau o fewn ardaloedd, yn ei gwneud yn haws i bob dysgwr allu canolbwyntio'n well gan sicrhau ein bod yn lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad dysgwyr.	Athrawon Bl 1 a 2 i gefnogi athrawon Bl 3 – 6 Ysgol Rhyd y Llan wedi ei hadnabod gan GwE fel ysgol y gellid ymweld â hi er mwyn weld arfer dda Cynnal cyfarfod cwestiwn ac ateb gydag athrawon o ysgolion eraill sydd wedi eu hadnabod i fod yn arwain yn y maes hwn. Defnyddio amser HMS/cyfarfodydd nos Fawrth er mwyn cyd-drafod a rhannu llwyddiannau ac anawsterau. Aildrefnu dosbarthiadau os oes angen.	Athrawon Bl 3 – 6 i gael amser i gyfarfod gydag athrawon Bl 1 a 2 er mwyn manteisio ar eu harbenigedd. Trefnu i athrawon Bl 3 – 6 ymweld gydag Ysgol Rhyd y Llan er mwyn gweld sut mae athrawon yno'n cynllunio ac yn darparu cwricwlwm drwy ardaloedd yn nosbarthiadau Bl 3 – 6. Rhyddhau athrawon Blwyddyn 3 fel eu bod yn cael cyfle i gynllunio ardaloedd a chydgynllunio tasgau a threfnu eu dosbarthiadau. Rhyddhau athrawon Blwyddyn 4 a 5 fel eu bod yn cael cyfle i gynllunio ardaloedd a chydgynllunio tasgau a threfnu eu dosbarthiadau. Rhyddhau athrawon Blwyddyn 4 a 5 fel eu bod yn cael cyfle i gynllunio	1. Holl athrawon Bl 3 – 6 yn treialu ac yn arbrofi gydag ardaloedd o fewn y gofod sydd ar gael iddynt 2. Holl athrawon Bl 3 – 6 yn magu hyder wrth addasu eu dulliau o addysgu 3. Adroddiadau montiro yn dangos fod y mwyafrif o ddysgwyr Bl 3 – 6 yn cynyddu yn eu hanibyniaeth wrth ddysgu	Y bwlch ym mherfformiad dysgwyr gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion wedi lleihau Y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da ar draws y meysydd Y broses pontio o un flwyddyn i'r llall wedi ei hwyluso ac yn llai bygythiol o ganlyniad i gysondeb yn y dulliau addysgu.

		ardaloedd a chydgynllunio tasgau a threfnu eu dosbarthiadau. Sicrhau fod athrawon Bl 1 a 2 ar gael I gefnogi ac ateb cwestiynau yr athrawon.		

Blaenorieth 2: CYNLLUNIO
Mireinio cynlluniau tymor hir a thymor canol er mwyn sicrhau datblygiad yn nysgu yr holl ddisgyblion wrth ateb gofynion Cwriwlcwm i Gymru.

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH	MEWNBWN CEFNOGAETH	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD	ALLBWN TYMOR BYR	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Yn dilyn craffu ar waith plant yn 2023 – 2024 gwelwyd fod diffyg cynllunio tymor hir a chanolig yn arwain at ddysgwyr o wahanol blynyddoedd yn derbyn profiadau tebyg ac ailadroddus	Tîm rheoli i arwain y drafodaeth. Edrych ar engrheifftiau ar wefan Cefnogaeth GweE. Creu fframar gyfer bras gynllunio sgiliau yn yr hir dymor a'r tymor canol. Nosweithiau Mawrth yn cael eu rhyddhau ar gyfer cyd-drafod ar draws camau cynnydd Fframiau cynllunio yn cael eu creu fel dogfennau byw a'u rhannu drwy'r Google Drive Sefydlu grwp MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoeg gyda'r ffocws ar Wyddoniaeth yn benodol. (cynllun gweithredu i ddilyn)	Yr holl athrawon i ailedrych ar yr hyn sy'n bwysig o fewn MDaPh y CiG. Athrawon i gyfarfod fesul Cam Cynnydd i drafod a mapio profiadau – defnyddio arbenigeddau er mwyn sicrhau cwricwlwm cyfoethog. Sicrhau fod y pedwar diben wrth wraidd y profiadau. UDRh i fonitro a sicrhau nad oes gor-gyffwrdd. Tim Rheoli i sicrhau fod themau yn eang ac yn caniatau amrywaith men profiadau.	Cynnydd yn y profiadau o fewn yr ardal leol Cynnydd yn nifer ymwelwyr sy'n rhannu eu harbenigeddau gyda'r plant Gweithgareddau yn ardal tu allan yn cyfoethogi dysgu'r holl ddysgwyr	Bron pob dysgwr ymhob dosbarth yn gwneud cynnydd da iawn gan adeiladu ar brofiadau blaenorol.

Blaenoriaeth 3: MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg
Sicrhau fod bron pob disgybl yn chwilfrydig fel eu bod yn gallu ymchwilio i wybodaeth wyddonol, a'i chymhwyso, er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o sut mae'r byd yn gweithio.

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH	MEWNBWN CEFNOGAETH	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD	ALLBWN TYMOR BYR	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Nid yw gwyddoniaeth wedi bod yn flaenoriaeth yn y CGY ers sawl blwyddyn. Erbyn hyn mae athrawon wedi cael amser i ymgyfarwyddo â gofynion MDaPh Gwyddoniaeth a mae angen monitor a rhoi sylw manwl i'r maes er mwyn sicrhu fod dysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn o fewn y maes hwn. Rhoddir y ffocws y tro hwn ar yr agwedd o ddatblygu chwilfrydedd dysgwyr tuag at y byd o'i cwmpas.	Athrawon yr ysgol sydd ag arbenigedd mewn maes gwyddoniaeth Hyfforddiant staff Hwb – Adran adnoddau. Defnyddio arferion da sydd wedi eu rhannu Teithiau Dysgu a chyd-edrych ar waith dysgwyr ar nos fawrth er mwyn rhannu arferion da o fewn yr ysgol	Adnabod 2 gydlynydd MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg – un i Graig Fach ac un i Graig Fawr Ailedrych ar gynlluniau gwyddoniaeth gan fapio'r agweddau o'r hyn sy'n bwysig ar draws y themau Ailedrych ar sut i gynllunio gan roi cyfle i'r dysgwyr fynegi eu barn am yr hyn maent eisiau ei ddysgu Sicrhau fod staff sy'n mynychu hyfforddiant yn cael amser i rannu gwybodaeth gyda gweddill y staff Craffu ar waith dysgwyr a thrafod gyda'r dysgwyr er mwyn monitro'r cynnydd yn nealltwriaeth a sgiliau'r dysgwyr Athrawon i gyd-edrych ar waith plant er mwyn gweld yr ystod a'r dablygiad o un flwyddyn ysgol i'r llall	Profiadau gwerthfawr a phwrpasol wedi eu cynllunio ar gyfer pob dyswgr Cwricwlwm gwyddoniaeth yn teb gofynion y CiG ac yn paratoi y plant i fyw yn y byd fodern, cyfoes Bron pob dysgwr yn dangos chwilfrydedd ac yn gofyn cwestiynau pwrpasol ac aeddfed. Bron pob dysgwr yn hyderus pan yn siarad am eu profiadau gwyddonol ac am y byd o'i cwmpas	Bron pob un o'r dysgwyr yn cael mynediad i gwricwlwm gwyddoniaeth eang sydd wedi ei seilio ar brofiadau go -iawn a thrwy hynny'n gwneud cynnydd da iawn y neu sgiliau a dealltwriaeth gwyddonol

Datblygu Model Rhesymeg 2024 - 2025: 'Ymateb i anghenion ein holl ddisgyblion ym maes Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu'
NOD CYFFREDINOL: 'Sicrhau cysondeb a chontiniwm addysgu ar lawr dosbarth gan sicrhau fod mynediad i bob disgybl i sicrhau datblygiad a chynnydd.'

HER RHESWM DROS Y FLAENORIAETH	MEWNBWN CEFNOGAETH	GWEITHREDU CAMAU I'W CYMRYD	ALLBWN TYMOR BYR	DEILLIANT/EFFAITH TYMOR HIR
Cysoni arferion gwahaniaethu addysgegol ar lawr dosbarth gyda'r Dalgylch	• Adnoddau Addysgeg Mark Burns • Mewnbwn timau arbenigol ADY a'r iaith • Google Classroom Addysgeg y Dalgylch • Mynediad i drive Adnoddau Iaith Mon. • Google Drive ADP • Google Classroom Y Ganolfan Iaith • Prosiect Ein Llais Ni	CYSONDEB HOLL GLWSTWR: Yn yr ysgolion: 1. Coladu adnoddau yn y tri sgil (llafar, darllen ac ysgrifennu) sy'n cael eu hystyried y mwyaf effeithiol e.e. heriau wedi eu gwahaniaethu, defnydd effeithiol o apiau, adborth a thargedau. 2. Camau - pob ysgol yn clustnodi amser i drafod pa arferion effeithiol o fewn dosbarthiadau / adrannau - arferion llwyddiannus drwy gymorthyddion - cyfnod o weithredu a threialu - creu cyflwyniad *'Beth weithiodd yn dda i mi'* o fewn ysgol – taith ddysgu gwahaniaethu. - rhannu'r cyflwyniadau gyda'r Dalgylch - yn deillio o'r cyflwyniadau yn adeiladu at y 'Tool-kit'. 3. Pob ysgol i gynnal awdit i ddarganfod y bylchau oddi fewn y tri sgil iaith.	1. Holl ysgolion wedi cynnal awdit i adnabod arferion da i'w treialu. 2. Pob aelod o staff wedi llunio slide ar gyflwyniad 'Beth weithiodd yn dda i mi' gan gynnwys y QR codes i'r Arweinydd Digidol Dalgylch. 3. Hyfforddiant Dalgylchol yn cael ei ddarparu boed yn HMS neu oriau gwyll ar gyfer holl staff.	Mesur Effaith • Prosesau tracio ac asesu mewnol yr ysgol yn dangos cynnydd cyffredinol sy'n fwy na'r disgwyl gyda rhan fwyaf y disgyblion. • Cysondeb ar draws y Dalgylch o wahaniaethu a sicrhau fod disgyblion yn datblygu i fod yn annibynnol wrth gwblhau tasgau. Mesur a chynnal • Ysgolion wedi datblygu ymhellach fel ysgolion sy'n hunan wella • Ysgolion wedi datblygu fel 'Sefydliad sy'n dysgu' drwy gynnal ymchwil gweithredu effeithiol yn hyderus.

		4. Hyfforddiant mewnol / Hyfforddiant HMS yn ôl y gofyn. 5. Hyfforddiant Mark Burns i'w drefnu gan y Sir. 6. Oriau gwyll i ysgolion gynllunio/ ymateb a chynllunio yn deillio o'r hyfforddiant. 7. Ysgolion i greu clipiau cymorth (QR cod)ar gyfer y 3 sgil er mwyn hybu annibyniaeth. (athrawon a chymorthyddion, Fforwm ADY, Uned Iaith)		• Rhannu arferion da yn y grwp Gwahaniaethu. • Rhannu arferion llwyddiannus yn gyson drwy gyfarfodydd Penaethiaid dalgylch. Grŵp Gwahaniaethu a'r platfform digidol. • Hyfforddiant HMS
Sut mae ysgolion yn diwallu anghenion dwys a MATh yn eu hysgolion.		1. Pob athro yw gweithredu gofynion CDU disgyblion ar y gofrestr a'r cynllunio perthnasol gan gynnwys disgyblion MATh. 2.Rôl cymorthyddion traws ysgol. 3. Sicrhau bod pob cymhorthydd yn ymwybodol o dargedau personol pob disgybl sy'n cael darpariaeth ychwanegol. 4. Gwneud defnydd effeithiol o apiau i gynorthwyo disgyblion dwys a MATh i gyflwyno eu gwaith yn drawsgwricwlaidd. 5. Arferion llwyddiannus yn cael eu rhannu rhwng ysgolion. 6. Awdit codau PLASC ar gyfer creu llyfrgell ddigidol o adnoddau / strategaethau ar gyfer pob cod. (mewnbwn timau arbenigol Fforwm ADY)	Enghreifftiau o weithredu mewn dosbarthiadau a thrafodaethau proffesiynol i gael eu cynnal yn rheolaidd mewn cyfarfodydd staff Monitro CDU – CADY Sicrhau bod disgyblion MATh wedi cael eu hadnabod. Sicrhau fod codau PLASC yn weithredol. CT – anghenion y disgybl. GS – darpariaeth sy'n gallu cael ei roi Pob CADY i ymgyfarwyddo holl staff o arwyddocad o codau PLASC.	
Datblygu llwyfan digidol i gyflwyno a rhannu arferion effeithiol yng nghyd destun gwahaniaethu ieithyddol.		1) Rhannu 'beth weithiodd yn dda i mi' i'r Arweinydd Digidol Dalgylch.	Arweinydd Digidol i greu drafft o'r wefan a'i rhannu gyda'r Penaethiaid a'r grŵp gwahaniaethu.	

		2) Rhannu adnoddau gan gynnwys QR codau pob ysgol yn y Drive gan gynnwys Fforwm ADY a Uned Iaith. 3) Creu gwefan Dalgych hygyrch. 4) Hyfforddi un o bob ysgol i uwchlwytho adnoddau i'r wefan. 5) Rheadru a hyrwyddo'r wefan o fewn pob ysgol.	Bras gynllun o benawdau	
		Pob grŵp i gysylltu gyda arbenigwyr i goladu adnoddau parod ar gyfer y llwyfan digidol.		

Cynllun Y Gymraeg Dalgylch Llangefni 2024 – 2025 – cynllun Newydd ar y ffordd

Grant Y Gymraeg				

IS -FLAENORIAETHAU ERAILL 2024-2025		
ÎS-FLAENORIAETHAU	**AMSERLEN**	**DEILLIANNAU**
Y Gymraeg Sicrhau fod llawer o'r dysgwyr yn defnyddio'r Gymraeg tu allan i wersi ffurfiol, ar yr iard ac wrth siarad gyda'u ffrindiau.	Holiaduron Siarter Iaith dwywaith y flwyddyn Cyngor Ysgol i ddadansoddi'r data a ddaw o'r holiaduron hyn.	Holiaduron plant yn dangos cynnydd yn nifer y plant sy'n siarad Cymraeg mewn sefyllfaoedd llai ffurfiol.
Tracio Cynnydd Dysgwyr Sicrhau fod yr holl athrawon yn bwydo canlyniadau asesiadau'n rheoliadd i'r offeryn tracio cynnydd er mwyn gwneud y defnydd mwyaf effeithiol ohono wrth fesur cynnydd grwpiau o ddysgwyr.	Bwydo asesiadau cychwynnol erbyn 25/09/2024 UDRh i fontiro a dadansoddi data 05/10/2024 Bwydo asesiadau erbyn 25/03/2025 ac UDRh i fontiro a dadansoddi data 27/03/2025 Bwydo asesiadau erbyn 27/06/2025 ac UDRh i fontiro a dadansoddi data 01/07/2026	Y tîm arweinyddol yr ysgol yn gwybod sut mae gwahanol grwpiau o ddywgyr yn perfformio ac yn gallu defnyddio'r data er mwyn gofyn ac ateb cwestiynau penodol.
Iechyd a Diogelwch Sicrhau fod yr adeilad yn ddiogel ar gyfer holl rhanddeiliaid sy'n ei defnyddio. Sicrhau fod asesiadau risg newydd ar gyfer Graig Fach wedi eu creu	Panel Iechyd a Diogelwch yn monitro yn dymhorol: 17/09/2024 10/01/2025 02/05/2025	Lleihad yn nifer achosion o 'near miss' ac adroddiadau ADIR 1. Holl blant yn ddiogel ar ddechrau a diwedd y dydd.
Fframwaith Hunan werthuso Ysgol y Graig – Offeryn ardarnu ysgol wedi ei greu ac yn sail i'r CGY. Defnyddio holiaduron forms / craffu ar lyfrau / teithiau dysgu / arsylwi ar wersi er mwyn monitor. Defnyddio hyperlinks yn yr offeryn er mwyn cael mynediad cyflym i'r adroddiadau hunan arfarnu/monitor.Defnyddio'r offeryn er mwyn adnabod blaenoriaethau'r flwyddyn ganlynol.	Pennaeth i ranu'r offeryn gyda'r holl staff a'r llywodraethwyr 02/09/2024 Bwydo'r offeryn yn dilyn pob gweithgaredd monitor/ dadansoddi data/ holiaduron	Arweinwyr yr ysgol yn adnabod yn dda cryfderau a gwendidau'r ysgol Rhieni a gofalwyr yn gwybod beth yw blaenoriaethau'r ysgol ac yn deall pam eu bod yn flaenoriaethau ar gyfer eleni. Yn Mehefin holl rhanddeiliaid yn gallu cyfrannu at drafodaeth agored am flaenoriaethau 2025 – 2026.
Presenoldeb Sicrau fod bron pob plentyn yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Dathu presenodeb dosbarthiadau. Dathlu gwelliant ym mhresenoldeb unigolion.	Gwobrwyo presenoldeb dosbarthiadau yn wythnosol Dathlu unigolion yn dymhorol ac ar ddiwedd y flwyddyn. Dathlu gwelliant ym mhresenoldeb unigolyn ar ddiwedd y flwyddyn.	Yr ysgol yn ymgyrraedd tuag at gyrraedd targed presenoldeb o 94.5%

CYNLLUN GWEITHREDU BLAENORIAETHAU CGY HYDREF – RHAGFYR 2024

Blaenoriaeth	Tasgau / Gweithredu	Pa bryd?	Pwy?
Sefydlu ardaloedd dysgu yn Graig Fawr	• Hyfforddi a rhannu arferion da • Arbrofi gydag ardaloedd wrth aildrefnu y gofod sydd ar gael • Ymweld gydag ysgol Rhyd y Llan • Taith Ddysgu ardaloedd Bl 3 - 6	10/09/2024 – 24/09/2024 01/10/2024 12/11/2024	Athrawon Bl 3 – 6 a'r UDRh UDRh a GwE
Cynllunio	• Cyfarfod torfol i drafod themau'r flwyddyn a pennu cydlynwyr MDaPh • Cydlynwyr i gyfarfod er mwyn cwblhau mapio tymor hir • Athrawon M a D; Bl 1 – 3; Bl 4 - 6 i gyfarfod i drafod cynlluniau tymor canol a sicrhau dilyniant	08/10/2024 – 15/10/2024 – 22/10/2024 05/11/2024 - 19/11/2024	Holl athrawon / UDRh Cydlynwyr MDaPh Athrawon M a D; Bl 1 – 3; Bl 4 - 6
MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg	• Craffu ar lyfrau a gwaith gwyddoniaeth dysgwyr - sefydlu gwaelodlin er mwyn adnabod anghenion hyfforddiant a mesur cynnydd erbyn diwedd y flwyddyn	12/12/2024	Cydlynwyr MDaPh a'r UDRh
ADY	• CDU wedi eu diweddaru, gan gynnwys proffil un tudalen. Athrawon i edrych ar dargedau plant CDU.	CDU wedi eu diweddaru erbyn 27/10/2023	Athrawon dosbarth
Addysgeg / ADY / Digidol	• Cyflwyniad Gwerthuso • Gwerthuso ar gyfer plant ADY yn y Dosbarth, edrych ar CDU a thargedu dysgwyr	HMS Medi 2024 HMS 6ed o Dachwedd 2024	
Hunanwerthuso / tracio cynnydd	• Rhannu taenlen tracio a FfGY gyda'r holl staff • Cyflwyno daenlen FfGYi i'r Llywodraethwyr ac yna i holl randdeiliaid yr ysgol. • Athrawon i fwydo asesiadau i'r offeryn tracio	04/09/2024 12/11/2024 22/10/2024	UDRh Pennaeth Athrawon unigol

DATGANIAD CYLLIDOL

Mae'r datganiad hwn yn ganlyniad i ddadansoddi a chynllunio a gymeradwywyd gan yr Is-banel Cyllid o'r Corff Llywodraethu.
Roedd gan yr ysgol tanwariant o £27,822 o gyllideb 2023/24. Mae'r arian hwn weddi ei drosglwyddo i Arian Wrth Gefn, ar gyfer gwariant sydd heb ei ragweld.

Grantiau 2024-2025
Mae nifer o'r grantiau oedd yn bodoli bellach wedi eu cynnwys o fewn Grantiau Awdurdodau Lleol. Bydd yr ysgol yn defnyddio'r grant i roddi pwyslais ar y gefnogi blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sef:

- gwella cynnydd disgyblion drwy sicrhau bod eu dysgu'n cael ei gefnogi gan amrywiaeth o wybodaeth, sgiliau a phrofiad
- lleihau effaith tlodi ar gynnydd a chyrhaeddiad disgyblion.
- gwella presenoldeb

Gwneir hyn drwy ryddhau staff i fonitro meysydd; mynychu hyfforddiant; cydweithio gyda staff o ysgolion eraill yn ogystal â rhyddhau staff er mwyn arsylwi ar arferion da sy'n bodoli o fewn yr ysgol hon. Ers 2023 a 2024 mae'r ysgol hefyd yn rhan o Raglen Partneriaethau Ysgolion ac yn cydweithio gydag ysgolion y dalgylch wrth gefnogi a chydweithio er mwyn codi safonau.

Mae'r arian GGD yn cael ei ddefnyddio i gyflogi Uwch Gymhorthydd a Therapydd Chwarae fel ein bod yn gallu rhoi cefnogaeth i blant PYD sy'n fregus.

Eleni mae'r ysgol unwaith eto'n defnyddio arian GALl er mwyn cyflogi cwmni CELS i weithio'n wythnosol gyda dysgwyr yn ystod gwersi CPA athrawon am 1 diwrnod yr wythnos. Maent yn datblygu sgiliau bywyd y dysgwyr megis datblygu gwytnwch a dyfalbarhad wrth iddynt ddatrys problemau.

Dyraniad yr ysgol hon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/45 yw:
